# CAN NEWYDD,

O

# DDIOLCHGARWCH I DDUW

AM

*ATTAL EI FARNEDIGAETHAU*

YN

# AMSER Y CYNHAUAF, 1823.

*ABERTEIFI:*

Argraffwyd, gan Evan Jones, Heol-Fawr.

—o—

1823.

50121

CARDIFF UNIVERSITY * PRIFYSGOL CAERDYDD *

# *CAN NEWYDD,*

---

NESEWCH Frutaniaid tyner, mae'n amser yma 'nawr
I roddi clod yn hylwydd i'n Llywydd ar y llawr,
Am iddo lwyr-waredu yn lle'n sathru oll yn sarn,
A'n cadw mor ddisymwth pan oedd yn bygwth barn.

2 'Roedd ofn a braw echryslon ar ddynion yn ddilai,
Rhag ofn i Dduw trwy newyn ein sathru am ein bai,
Ond dyma rad drugaredd yn rhyfedd i bob rhyw,
A hwyliwyd i ni'n helaeth trwy dêg ragluniaeth Duw.

3 Fe gredodd rhai o honom y do'i drudaniaeth dwys,
I'n difa oddiar y ddaear yn gynnar dan y gwys,
Ond molwn Dduw'r Goruchaf am drugareddau rhad,
Cau's gwybod rwi fod gobaith am luniaeth yn y wlad.

4 Pechodau byd ac eglwys, mae'n gymmwys dweud y gwir,
Wnaeth i'r wialen orphwys mor faith uwch ben ein tir,
Ond pur reolaeth Iesu sydd ar ddeheulaw Duw,
Erfyniodd am drugaredd yn rhyfedd i bob rhyw.

No. 4th Hymn



5 Er maint sy'n byw'n annuwiol o bobl yn y byd,
Yn galw ar Frenin nefoedd i dywallt arnom lid,
Gwrandawodd Duw'r duwiolion sydd ffyddlon yn y ffydd
Oddiwrth y newyn creulon e'n rhoddodd etto'n rhydd.

6 Pan ydoedd y marchnadoedd yn dechrau a gwaghau,
Gwynebau'r holl dylodion a welwyd yn tristhau,
'Roedd hefyd rai'n terfynu trwy brynu blawd ac yd,
Y caent fywiolaeth hylwydd, gan dd'rogan amser drud.

7 Ond ydyw'n beth arswydus fod neb o ddynol-ryw,
Yn caru golud bydol heb ofni digio Duw,
Yn lle rhoi diolchgarwch am heddwch Brenin ne',
A moliant hylwydd helaeth am luniaeth yn ei le.

8 Mae'n hyspys i'r Brutaniaid trwy glywed yma'n glir,
Mai pechod ddaeth â'r newyn i dref Samaria dir,
A phechod ydyw'r achos fod Llywydd nef a llawr,
Yn difa rhan o'n llafur dan awyr yma 'nawr.

9 Na fydded neb yn cwynfan wrth wel'd ein bara'n llaith,
Mae'n filoedd gwell na haeddem, gogoniant am y gwaith,
Ond cofiwn wrth ei fwytta yn mhob rhyw gyfle gawn,
Mai Duw sydd yn ein porthi â'i drugareddau llawn.

10 Yr hwn sydd yn ein porthi allasai'n torri lawr,
Neu roddi haint a newyn dros wyneb daear fawr,
Nid gwell y'm ni nâ'r Aiphtiaid, neu'r hen Samariaid gwiw,
Ond Duw o'i fawr drugaredd a fynai'n cadw'n fyw.

11 Gallasai beri'r ddaear ein llyngcu yn mhob lle,
'Run fath a Cora, Dathan, oedd aflan dan y ne';
Gallasai ro'i llifeiriant i'n boddi oll o'r byd,
Peth rhyfedd i'r Brutaniaid i gael eu harbed cyd.

12 Gallasai beri i'r llafur i bydru yn y pridd,
Neu'n llosgi fel Sodoma yn lle'n rhoddi oll yn rhydd,
Gan hynny awn yn ffyddlon at Iesu cyfion cu,
I erfyn am drugaredd cyn dêl dialedd dû.

13 Daw dial Duw am bechod cawn ganfod oll i gyd,
Och drymed fydd ei ergyd pan y disgyno'i lid,
Rho'es lawer o rybuddion yn dirion nos a dydd,
Er hyn 'rym ni'n caledu, yn lle ceisio ffoi trwy ffydd.

14 Bu'r gwlaw yn ein rhybuddio yn fawrion ac yn fân,
Gan beri i'r maesydd gleision i droi yn ddu eu grân,
Yr ŷd yn ail-egino, a'r gwair yn wael ei liw,
Hyn oll oedd yn arwyddo ein bod yn digio Duw.

15 Ni a ddylem roi gogoniant, er llwyddiant yn mhob lle,
Am attal barnedigaeth yn awr i Frenin ne',
Pan bo'm ni'n gorfod gadael pob lluniaeth is y nen,
O am gael bara'r bywyd a bery byth. Amen.

*DIWEDD.*

---

*E. Jones, Argraffydd, Heol-Fawr, Aberteifi.*